

**Fframwaith Cymhwysedd Digidol**  
Y Cyfnod Sylfaen

	Meithrin	Dosbarth derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	
<b>Llinyn</b>	Dinasyddiaeth – Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn dod i ddeall beth yw bod yn ddinesydd digidol cydwybodol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u cwrmpas ac sy'n gwerthuso'n feirniadol eu lle o fewn y byd digidol hwn. Byddant yn barod am yr agweddau cadarnhaol a negyddol o fod yn ddinesydd digidol a byddant yn datblygu strategaethau a dulliau i'w helpu wrth iddynt ddatblygu'n gynhyrchwyr ac yn ddefnyddwyr annibynnol.				
<b>Dinasyddiaeth</b>	<b>Elfen</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	
	Hunaniaeth, delwedd ac enw da	<ul style="list-style-type: none"> <li>gwahaniaethu rhwng rhywun y maent yn ei adnabod a rhywun nad ydynt wedi cwrdd ag ef, e.e. <i>mae hyn yn gysylltiedig ag addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) lles a byddai'n rhan o addysg 'Stranger Danger'</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>sylweddoli bod canlyniadau i weithredoedd a phennu rheolau syml i gadw'n ddiogel (ar-lein ac all-lein), e.e. <i>dylai rheolau/siarter yr ystafell ddosbarth gynnwys rheolau am faterion digidol a materion nad ydynt yn ddigidol</i></li> <li>sylweddoli y gellir rhannu data ar-lein, e.e. <i>gyda chymorth oedolyn, dod o hyd i ddelweddau o'u hunain ac eraill, megis ar wefan yr ysgollar dudalen cyfryngau cymdeithasol yr ysgol, ac ati</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>deall bod rhai gwefannau'n gofyn am wybodaeth breifat a phersonol, e.e. <i>nodi gwybodaeth breifat a phersonol a thrafod sut i ddelio â cheisiadau am wybodaeth breifat – peidio â datgelu enw llawn, cyfeiriad, dyddiad geni, ysgol</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>deall bod rhoi gwybodaeth ar-lein yn gadael ôl-troed neu lwybr digidol, e.e. <i>esbonio ystyr ôl-troed neu lwybr digidol a'u hannog i feddwl yn feirniadol am yr wybodaeth y maent yn ei gadael ar-lein</i></li> <li>pennu'r camau y gellir eu cymryd i gadw caledwedd a data personol yn ddiogel, e.e. <i>deall enwau defnyddiwr a chyfrineiriau, pam rydym yn eu defnyddio a sut i'w cadw'n ddiogel</i></li> </ul>
	Iechyd a lles	<ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio dyfeisiau a chyfryngau digidol a hynny'n ofalus, e.e. <i>enwi amryw ddyfeisiau digidol a'u defnyddio'n briodol</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>siarad am ddefnydd beunyddiol o ddyfeisiau a chyfryngau digidol, e.e. <i>pennu ystod o gyfryngau a dyfeisiau digidol o brofiadau cyfarwydd, a gwneud arsylwadau syml am eu defnydd</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio dyfeisiau digidol o fewn amgylchedd, amser a chyd-destun rheoleddig, e.e. <i>defnyddio dyfais am gyfnod penodol ac er mwyn sicrhau canlyniad penodol</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>dechrau adnabod ac esbonio manteision ac anfanteision cyfryngau a dyfeisiau digidol ar eu bywydau, e.e. <i>ar eu lles corfforol a meddyliol</i></li> </ul>
	Hawliau digidol, trwyddedu a pherchenogaeth	<ul style="list-style-type: none"> <li>ychwanegu eu henw at waith digidol drwy ddefnyddio llythyren flaen, e.e. <i>teipio llythyren flaen eu henw ar fysellfwrdd</i></li> <li>adnabod peth gwaith sy'n berchen i eraill, e.e. <i>chwilio am lun sydd wedi'i greu gan gyfoedloedolyn cyfarwydd</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>ychwanegu eu henw at waith digidol, e.e. <i>teipio eu henw cyntaf ar fysellfwrdd</i></li> <li>dod o hyd i enw awdur gwaith digidol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>ychwanegu eu henw a dyddiad at waith a grëwyd ganddynt, e.e. <i>teipio eu henw cyntaf a chyfenw ac ychwanegu dyddiad at ddarnau o waith</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>ychwanegu eu henw a dyddiad at waith a grëwyd ganddynt a nodi rhesymau pam fod hyn yn bwysig, e.e. <i>teipio eu henw cyntaf a chyfenw, ychwanegu dyddiad at ddarnau o waith a rhoi rhesymau ar lafar am wneud hynny</i></li> </ul>
	Ymddygiad ar-lein a seiberfwlio	<ul style="list-style-type: none"> <li>adnabod emosiynau eraill ar ystod o feddalwedd digidol, e.e. <i>siarad am deimladau a dechrau adnabod emosiynau; ystyried sut y gall gweithredoedd a geiriau effeithio ar bobl eraill; deall bod canlyniadau i ymddygiad; gwybod pryd y byddant yn grac, yn bryderus neu'n ofnus, a phwy i ofyn am help</i></li> <li>rhoi rhesymau am yr hyn a hoffir/nas hoffir o ran gweithgareddau ar sgrin.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>esbonio sut y gall pobl gysylltu ag eraill ar-lein, e.e. <i>pennu ffurfiau o gyfathrebu (gan gynnwys digidol)</i></li> <li>defnyddio geiriau a theimladau priodol, e.e. <i>trafod geiriau a theimladau a allai ypsetio pobl – dolen i addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh) a gwaith lles all-lein.</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>esbonio'n syml y gall technoleg ddigidol gael ei defnyddio i gyfathrebu a chysylltu ag eraill yn lleol ac yn fyd-eang, e.e. <i>testun, delwedd, ffotograffau, fideo, cylchlythyrau, e-bost, gwasanaethau gwe</i></li> <li>dechrau nodi tebygrwydd a gwahaniaethau rhwng cyfathrebu ar-lein ac all-lein, e.e. <i>dilyn yr un rheolau wrth gyfathrebu wyneb yn wyneb ac ar-lein</i></li> <li>defnyddio geiriau a theimladau priodol, e.e. <i>trafod geiriau a gweithredoedd.</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio technoleg ddigidol i gyfathrebu a chysylltu ag eraill yn lleol ac yn fyd-eang, e.e. <i>testun, delwedd, ffotograffau, fideo, cylchlythyrau, e-bost, gwasanaethau gwe</i></li> <li>rhyngweithio ag eraill yn briodol, e.e. <i>dilyn yr un rheolau wrth gyfathrebu wyneb yn wyneb ac ar-lein.</i></li> </ul>

# Fframwaith Cymhwysedd Digidol

## Y Cyfnod Sylfaen

	Meithrin	Dosbarth derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	
<b>Llinyn</b>	Rhyngweithio a chydweithio – Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn edrych ar ddulliau cyfathrebu electronig ac yn gwybod pa rai sydd fwyaf effeithiol. Bydd dysgwyr hefyd yn storio data ac yn defnyddio technegau cydweithio yn llwyddiannus.				
<b>Rhyngweithio a chydweithio</b>	<b>Elfen</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	
	Cyfathrebu	<ul style="list-style-type: none"> <li>deall bod gwahanol ffurfiau ar gyfathrebu ar-lein, e.e. <i>e-bost, negeseuo, galwad fideo</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>siarad am wahanol ffurfiau o gyfathrebu ar-lein, e.e. <i>e-bost, negeseuo, galwad fideo, a'u defnyddiau</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>cyfrannu at gyfathrebiad grŵp neu ddsbarth cyfan ar-lein, e.e. <i>e-bost neu galwad fideo</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>anfon cyfathrebiad ar-lein syml o un cyfrif defnyddiwr, e.e. <i>e-bost (gan sicrhau bod y cyfeiriad wedi'i deipio'n gywir) neu alwad fideo</i></li> </ul>
	Cydweithio	<ul style="list-style-type: none"> <li>gweithio gyda phartner/partneriaid ar ddarn o waith digidol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>gweithio gyda phartner/partneriaid ar ddarn o waith digidol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>cydweithio gyda phartner ar ddarn o waith digidol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>defnyddio platfform cydweithio ar-lein i greu neu i olygu ffeil, e.e. <i>prosesu geiriau, rhaglenni cyflwyniadau, taenlenni</i></li> </ul>
	Storio a rhannu	<ul style="list-style-type: none"> <li>cadw gwaith drwy glicio ar eicon.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>cadw gwaith drwy glicio ar eicon a deall y gellir adfer y gwaith.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>cadw gwaith gan ddefnyddio gair cyfarwydd fel enw i'r ffeil, e.e. <i>enw plentyn/allweddair, a deall y gellir adfer y gwaith.</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>cadw gwaith gan ddefnyddio enw ffeil priodol, e.e. <i>enw plentyn a theitl syml</i></li> <li>defnyddio eicon i agor ffeil sydd wedi'i cadw.</li> </ul>
<b>Llinyn</b>	<p><b>Cynhyrchu – Mae'r elfennau hyn yn ymdrin â'r broses gylchol o gynllunio (gan gynnwys chwilio am wybodaeth a dod o hyd iddi), creu, gwerthuso a mireinio cynnwys digidol. Er y gall y broses hon fod yn gymwys i feysydd eraill y fframwaith, mae'n arbennig o bwysig wrth greu a chynhyrchu cynnwys digidol. Mae hefyd yn hanfodol cydnabod, fodd bynnag, y gall cynhyrchu cynnwys digidol fod yn broses greadigol iawn ac nid yw'n fwriad llesteirio creadigrwydd o'r fath.</b></p> <p><b>Mae cynnwys digidol yn cynnwys cynhyrchu testun, graffeg, sain, fideo ac unrhyw gyfuniad o'r rhain at amrywiaeth o ddibenion. Felly, bydd hyn yn cynnwys amryfal weithgareddau ar draws sawl cyd-destun gwahanol.</b></p>				
<b>Cynhyrchu</b>	<b>Elfen</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	
	Cynllunio, cyrchu a chwilio	<ul style="list-style-type: none"> <li>gofyn ac ateb cwestiynau megis pam, beth, sut a ble, mewn perthynas â'r dasg ddigidol, e.e. <i>mewn ymateb i gwestiynau penderfynu pa offer digidol i'w ddefnyddio</i></li> <li>llywio drwy darn o feddalwedd gan ddefnyddio'r ddewislen fewnol i ddod o hyd i'r eitem sydd ei eisiau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>pennu maen prawf llwyddiant wrth ymateb i gwestiynau, e.e. <i>gall meini prawf llwyddiant gynnwys sicrhau bod testun delwedd yng nghanol y ffotograff wrth ei gymryd</i></li> <li>dod o hyd i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau, e.e. <i>awgrymu technoleg fel ffynhonnell gwybodaeth ac archwilio gwefannau neu apiau cyfarwydd sy'n seiliedig ar ddelweddau/symbolau</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>pennu rhai meini prawf llwyddiant wrth ymateb i gwestiynau, e.e. <i>dewis lliw priodol ac ychwanegu teitl at fideo</i></li> <li>defnyddio testun wrth chwilio am wybodaeth/cyfringau (delwedd, fideo, sain) a defnyddio porwr rhynggrwyd yn annibynnol, e.e. <i>agor porwr a theipio un allweddair i chwilio</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>cynllunio sut i gwblhau tasg ddigidol mewn perthynas â meini prawf llwyddiant penodol</li> <li>defnyddio allweddeiriau i chwilio am wybodaeth benodol i ddatrys problem, e.e. <i>teipio allweddeiriau i beiriant chwilio ac esbonio sut y gall eu dewis o wefan helpu i ddatrys y broblem</i></li> </ul>
	Creu	<ul style="list-style-type: none"> <li>archwilio a defnyddio gwahanol gydrannau amlgyfrwng er mwyn dal a defnyddio testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>dewis meddalwedd priodol o ystod gyfyngedig i greu cydrannau amlgyfrwng; creu ac archwilio'r defnydd o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>dewis meddalwedd priodol i gwblhau tasgau a roddwyd er mwyn defnyddio testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>creu a golygu cydrannau amlgyfrwng er mwyn datblygu testun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo ar gyfer ystod o dasgau</li> </ul>
	Gwerthuso a gwella	<ul style="list-style-type: none"> <li>disgrifio wrth ateb cwestiynau ychydig o beth wnaethpwyd mewn tasg ddigidol, e.e. <i>ychwanegu sylwadau gan ddefnyddio nodwedd recordio mewn meddalwedd.</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>gwneud sylwadau ar waith mewn perthynas ag un maen prawf llwyddiant, e.e. <i>ychwanegu sylwadau gan ddefnyddio nodwedd recordio mewn meddalwedd.</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>rhoi sylwad ar waith mewn perthynas â'r maen prawf llwyddiant, e.e. <i>ychwanegu sylwadau gan ddefnyddio nodwedd recordio mewn meddalwedd.</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>nodi beth weithiodd/beth na weithiodd, gan nodi rhai o'r rhesymau am eu barn.</li> </ul>

**Fframwaith Cymhwysedd Digidol**  
Y Cyfnod Sylfaen

	Meithrin	Dosbarth derbyn	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	
<b>Llinyn</b>	<p>Data a meddwl cyfrifiadurol – Mae meddwl cyfrifiadurol yn gyfuniad o ymholi gwyddonol, datrys problemau a sgiliau meddwl. Cyn i ddysgwyr allu defnyddio cyfrifiaduron i ddatrys problem, rhaid iddynt yn gyntaf deall y broblem a'r dulliau o'i datrys.</p> <p>Drwy'r elfennau hyn bydd dysgwyr yn deall pwysigrwydd llythrennedd gwybodaeth a data; byddant yn archwilio agweddau ar gasglu, cynrychioli a dadansoddi. Bydd dysgwyr yn edrych ar sut mae data a gwybodaeth yn cysylltu i mewn i'n byd digidol, a bydd yn rhoi iddynt sgiliau hanfodol ar gyfer y gweithle modern, deinamig.</p>				
<b>Data a meddwl cyfrifiadurol</b>	<b>Elfen</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	<b>Yn fwyfwy annibynnol mae dysgwyr yn gallu:</b>	
	Datrys problemau a modelu	<ul style="list-style-type: none"> <li>• cwblhau patrymau a dilyniannau</li> <li>• dilyn dilyniant syml o gyfarwyddiadau</li> <li>• creu cyfarwyddiadau un cam a phennu'r cam nesaf</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• rheoli dyfeisiau drwy roi cyfarwyddiadau iddynt</li> <li>• gwrandao ar ddilyniant o gyfarwyddiadau gan eraill, a'u dilyn</li> <li>• creu cyfarwyddiadau geiriol</li> <li>• rhoi cynnig ar wahanol ddulliau i ddatrys problem neu gyflawni nod</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dilyn cyfres o gamau i ddatrys problem, e.e. <i>rhagweld ac esbonio pa gamau fydd eu hangen i wneud i ryw beth ddigwydd</i></li> <li>• torri problem yn rhannau llai i'w gwneud yn haws i'w deall</li> <li>• creu a chofnodi cyfarwyddiadau ysgrifenedig y bydd eraill yn eu deall ac yn gallu eu dilyn</li> <li>• newid cyfarwyddiadau i gyflawni canlyniad gwahanol</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• esbonio i eraill sut mae datrysiad wedi'i ddylunio yn gweithio, e.e. <i>esbonio dyluniad gêm maes chwarae syml a'i brofi, gan gywiro unrhyw faterion sy'n codi</i></li> <li>• rhagweld canlyniad dilyniant syml o gyfarwyddiadau, e.e. <i>rhagweld beth fyddai'n digwydd pe na bai'r cyfarwyddiadau'n cael eu dilyn yn gywir</i></li> <li>• creu datrysiad syml sy'n profi syniad, e.e. <i>rhagweld beth fyddai'n digwydd pe bai'n mynd o'i le, megis y dilyniant o ddeffro i fynd i'r ysgol</i></li> </ul>
	Llythrennedd gwybodaeth a data	<ul style="list-style-type: none"> <li>• casglu data gan ddefnyddio gwrthrychau</li> <li>• cydnabod bod gwahanol fathau o ddata, e.e. <i>trefnu a/neu gydweddu gwrthrychau/ffotograffau/symbolau</i></li> <li>• trefnu gwrthrychau cyfarwydd gan ddefnyddio meini prawf penodol.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• dechrau dehongli gwybodaeth/data drwy wneud cymariaethau uniongyrchol, e.e. <i>esbonio pam fod un grŵp/set yn wahanol i set arall</i></li> <li>• dosbarthu gwrthrychau gan ddefnyddio un maen prawf</li> <li>• creu pictogram syml, gan ddefnyddio meddalwedd addas.</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• coladu a grwpio data gan ddefnyddio geiriau syml, e.e. <i>sortio lluniau/geiriau</i></li> <li>• dosbarthu gwrthrychau gan ddefnyddio mwy nag un maen prawf, e.e. <i>labelu grŵp/set</i></li> <li>• cofnodi data a gesglir mewn fformat addas, e.e. <i>defnyddio siartiau cyfrif, pictogramau a graffiau bloc mewn pecyn cyfrifiadurol syml.</i></li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• casglu data, a'i drefnu'n grwpiau, e.e. <i>casglu data drwy bleidleisio neu sortio a chyfleu hynny gyda lluniau, gwrthrychau neu luniadau</i></li> <li>• echdynnu gwybodaeth o dablau a graffiau syml, e.e. <i>ateb cwestiynau ar bapur graff</i></li> <li>• cofnodi data a gesglir mewn amrywiaeth o fformatau priodol, e.e. <i>rhestrau, tablau, graffiau bloc a phictogramau.</i></li> </ul>